Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Chwefror 2025

## Cyflwyniad

### Ein dull ni

**1.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ar 8 Ionawr 2025.

**2.** Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd y Pwyllgor mewn sefyllfa i gynnal sesiwn tystiolaeth lafar gyda Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Yn lle hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet gyda chwestiynau ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer ynni a chynllunio, sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.

**3.** O ystyried diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn datgarboneiddio tai, ysgrifennodd at Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, gyda chwestiynau ar ddyraniadau cyllidebol i gefnogi cyflawni yn y maes polisi hwn.

**4.** Gellir dod o hyd i dystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, a gohebiaeth â hi, ar wefan Senedd Cymru.

**5.** Mae'r adroddiad hwn mewn dwy ran:  Mae Rhan 1 yn ymdrin â meysydd o fewn portffolio'r Dirprwy Brif Weinidog sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ac mae Rhan 2 yn ymdrin â thrafnidiaeth.

## Trosolwg o'r dyraniadau

**6.** Mae'r gyllideb ddrafft gyffredinol fel y'i cyhoeddwyd yn nodi'r ffigurau ar gyfer "Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024", ac "Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26" a ddefnyddir i gyfrifo "Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26". Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio "Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26" ar gyfer cymariaethau, oni nodir yn wahanol.

**7.** Mae cyfanswm dyraniad cyfalaf a refeniw y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol neu AME) wedi cynyddu 14.9% o linell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 Mae cyllid refeniw (adnoddau) wedi cynyddu o £552.1 miliwn i £587.2 miliwn tra bod cyllid cyfalaf wedi cynyddu o £232.06 miliwn i £314.01 miliwn. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer y MEG cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys materion gwledig, ac mae'r agweddau hyn ar y gyllideb ddrafft wedi bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**8.** Ar gyfer y MEG Trafnidiaeth, mae cyllid refeniw (adnoddau) (ac eithrio AME) wedi cynyddu £69.66 miliwn i £878.22 miliwn. Mae cyllid cyfalaf wedi cynyddu £51 miliwn i £528.8 miliwn.

# Rhan 1: Newid hinsawdd a'r amgylchedd

## 1. Blaenoriaethu newid hinsawdd a natur ar draws y llywodraeth

**9.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i Lywodraeth Cymru ymgorffori ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Brif Weinidog egluro sut y mae wedi gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni drwy broses y gyllideb. Dywedodd y canlynol:

> *"We've always made very clear in Government that we see both the climate emergency and also the nature crisis as being embedded right across Government. Every portfolio Minister, every directorate, every team of officials needs to integrate it, including within the budget process, as well."*

**10.** Ychwanegodd ei fod yn siarad yn rheolaidd â chydweithwyr yn y Cabinet mewn perthynas â'r mater; dywedodd ei fod yn cael ei drafod o fewn y Cabinet, ond hefyd mewn cyfarfodydd dwyochrog a thairochrog. Darparodd y Dirprwy Brif Weinidog enghreifftiau o gyllid i gefnogi gweithredu ar newid hinsawdd mewn portffolios eraill, gan gynnwys £30 miliwn ar gyfer gwresogi carbon isel mewn adeiladau annomestig sy'n eiddo i'r awdurdod lleol; cyllid parhaus ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio; a £4.5 miliwn ar gyfer y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd.

**11.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod swyddogion o'r Trysorlys, Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth yn rhan o brosiect Cyllidebau'r Genhedlaeth Nesaf. Nod y prosiect yw alinio cyllidebau cyhoeddus â nodau niwtraliaeth hinsawdd a helpu i ddatgloi cyllid, adeiladu ar hyfforddiant technegol ac arferion gorau rhyngwladol a chael eu llywio ganddynt.

**12.** Yn olaf, eglurodd fod is-grŵp sy'n gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn y camau cynnar o ymgorffori atal yn y broses o osod cyllidebau, gan ganolbwyntio ar fioamrywiaeth. Disgwylir i'r is-grŵp gyflwyno adroddiad yn 2025 ac, yn amodol ar ei ganfyddiadau, bydd Llywodraeth Cymru "yn archwilio dull cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol". Dywedodd y bydd hyn yn cefnogi'r uchelgais i brif ffrydio'r gwaith o ddarparu gwytnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

## Addasu newid hinsawdd

**13.** Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd ei asesiad o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni cynllun addasu hinsawdd statudol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd (Rhagfyr 2022). Canfu Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd nad oedd digon o gynnydd o ran cyflawni a gweithredu addasiadau, a monitro cyfyngedig. Dywedodd fod yn rhaid i'r cynllun addasu cenedlaethol nesaf ar gyfer Cymru fynd ymhellach i hybu'r ddarpariaeth ar draws y sector cyhoeddus ac yn ehangach. Gwnaeth Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd 73 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn cwmpasu pob maes cyfrifoldeb, gan gynnwys tai, materion gwledig a'r economi.

**14.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun addasu hinsawdd newydd ym mis Hydref 2024, gan nodi'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau gwydnwch hinsawdd mewn meysydd y gall ddylanwadu arnynt.

**15.** Wrth wneud sylwadau ar i ba raddau y mae addasu i'r hinsawdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a sut mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu hyn, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"It's integral to the budget that we've brought forward…it is to do with investment in flood defences, protecting homes, of course it is, but it's also to do with things like the investment in Public Health Wales…for example, in helping us analyse and understand the risks to human health."*

**16.** Ychwanegodd:

> *"The way we understand this better and then implement budget decisions and policy decisions is through our engagement with external bodies, like the [UK] Climate Change Committee".*

**17.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad yw Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi rhoi barn ffurfiol eto ar y cynllun addasu hinsawdd newydd. Ond mynnodd ei bod wedi symud ymlaen yn sylweddol o ganlyniad i'r cynllun newydd, er y bydd angen i'r Llywodraeth wneud mwy bob amser.

## Ein barn ni

Fel yr amlinellwyd mewn llawer o'n hadroddiadau, os yw Cymru am gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau statudol a'i hymrwymiadau bioamrywiaeth byd-

eang, mae angen i Lywodraeth Cymru gynyddu'r ddarpariaeth, sy'n golygu mwy o fuddsoddiad.

Yn ôl y Sefydliad Cyllid Gwyrdd, amcangyfrifir bod Cymru yn wynebu bwlch ariannol o £5 i £7 biliwn o ran natur dros y deng mlynedd nesaf. Yn ein hadroddiad, Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 (Ionawr 2024), rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ei hasesiad ei hun o ofynion buddsoddi a datblygu strategaeth cyllid natur gynhwysfawr. Rydym yn ailadrodd yr alwad honno.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i "[g]ynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn adfer natur drwy sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng natur wedi'i integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth". Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y mae hyn yn cael ei ddatblygu a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur llwyddiant.

Mae'n galonogol clywed am y gwaith amrywiol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymgorffori bioamrywiaeth a newid hinsawdd ym mhroses y gyllideb. Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar y rhain yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf.

Mae canfyddiadau asesiad Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd o gynnydd tuag at addasu i newid hinsawdd yng Nghymru yn peri pryder i ni. Ers yr asesiad, mae cynllun addasu newydd wedi'i gyhoeddi, sydd, yn ôl Llywodraeth Cymru yn "arwydd o newid pwysig" yn ei dull o ymdrin â risgiau newid hinsawdd. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut mae ymgysylltu â Phwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb i helpu i gyflawni'r cynllun newydd.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- asesu a nodi maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer adferiad byd natur yng Nghymru, gan ymgorffori canfyddiadau o adroddiadau fel 'Llwybrau i 2030' Cyswllt Amgylchedd Cymru, a
- datblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyllid byd natur.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar waith a wnaed yn dilyn yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth i "[g]ynyddu buddsoddiad cyhoeddus yn adferiad natur drwy sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng natur yn cael ei integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth". Dylai hyn gynnwys manylion am sut y bydd yn mesur effaith y gwaith hwn ar lefelau buddsoddi ar gyfer byd natur.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog esbonio sut mae ei waith o ymgysylltu â Phwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb i helpu i gyflawni cynllun addasu hinsawdd newydd Llywodraeth Cymru.

# 2. Diogelwch tomenni glo

**18.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw 'Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr' wedi cynyddu o £3.83 miliwn i £5.83 miliwn. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb cyfalaf wedi cynyddu o £10.3 miliwn i £38.2 miliwn.

**19.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn egluro bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo, costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Awdurdod Tomenni Sbwriel Cymru arfaethedig, parhad gwaith yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) ynghylch arolygiadau, a £4.9 miliwn ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr.

**20.** Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth y DU wedi darparu £25 miliwn ar gyfer diogelwch tomenni glo fel rhan o'i chyllideb yn yr hydref. Ychwanegodd mai cyfanswm y buddsoddiad mewn diogelwch tomenni glo yn ystod tymor y Senedd hon yw £102 miliwn (gan gynnwys dyraniad y gyllideb ar gyfer 2025-26).

## Y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo

**21.** Yn dilyn tirlithriad mewn tomen lo nas defnyddir yn Tylorstown ym mis Chwefror 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Diogelwch Tomenni Glo i gyflawni rhaglen o waith, gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ar draws Cymru, ac archwiliadau a chynnal a chadw tomenni glo â'r potensial i effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

**22.** Mae 2573 o domenni glo nas defnyddir wedi'u nodi ledled Cymru. O'r rhain, mae 360 wedi'u nodi'n 'risg uchel' o ran y potensial i effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo yn darparu cyllid i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ar domenni glo cyhoeddus a phreifat er mwyn rheoli a lleihau'r bygythiad o lithriadau.

**23.** Pan ofynnwyd a oedd gormod o geisiadau am y Cynllun, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"No…because there's a real practical reality here of being able to deliver, with the capacity out there to deliver projects on the ground. So, we allocated £18.4 million to authorities and NRW in 2024-25. It is correct that the initial applications received totalled in excess of £29 million. However, the practical reality is*

> *that many of those applications would be unlikely to have been delivered before the end of the 2024-25 financial year."*

**24.** Ychwanegodd y bydd ceisiadau a fu'n aflwyddiannus yn 2024-25 yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid drwy'r cynllun ar gyfer 2025-26.

## Diwygio'r drefn reoleiddio diogelwch tomenni glo

**25.** Yn ei Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiwygio deddfwriaeth diogelwch tomenni glo yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynodd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) i'r Senedd. Nod y Bil yw atal tomenni nas defnyddir (tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo) rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) i weithredu'r drefn reoleiddio newydd. Y bwriad yw i'r Awdurdod fod yn weithredol ym mis Ebrill 2027.

**26.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod y gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad o £0.40 miliwn ar gyfer gwaith parhaus ar y Bil. Mae'n ychwanegu:

> *"mae'r gyllideb yn cydnabod y costau gweithredu sy'n codi o'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)…Mae dyraniadau cyllidebol wedi'u gwneud mewn perthynas â chostau sefydlu corff newydd, fel yr amlinellir hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cyllid wedi'i gynnwys hefyd ar gyfer parhad gwaith yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) yn ymwneud â'r gyfundrefn arolygu".*

**27.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Bil yn nodi'r amcangyfrif o'r gost ar gyfer y cyfnod trosiannol o ddwy flynedd (2025-26 i 2026-27) fel £5.6 miliwn, sy'n cynnwys costau staff a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff ar gyfer sefydlu'r Awdurdod.

## Ein barn ni

Mae'r tirlithriad diweddar ar y domen lo nas defnyddir yng Nghwmtyleri, Blaenau Gwent, yn dilyn Storm Bert, yn ein hatgoffa'n glir o'r risgiau parhaus a berir gan dreftadaeth lofaol Cymru. Mae digwyddiadau fel y rhain yn ddieithriad yn cael effaith sylweddol a pharhaol ar gymunedau, ac ni ellir mesur y gost.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n craffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru). Er nad ydym yn dymuno achub y blaen ar ganfyddiadau ein gwaith, rydym yn awyddus i sicrhau bod y drefn reoleiddio ar gyfer tomenni nas defnyddir yn gadarn, yn effeithiol, gyda digon o adnoddau, ac yn darparu amddiffyniad a thawelwch meddwl i gymunedau sy'n byw yng nghysgod tomenni. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau ein gwaith craffu maes o law.

Gwyddom y gall y costau glanhau ac adfer yn dilyn llithriad fod yn sylweddol. Byddem yn croesawu manylion unrhyw asesiad a wnaed o’r costau hyn ar gyfer tomen Cwmtyleri a sut y byddant yn cael eu talu.

Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer diogelwch tomenni glo, gan gydnabod pwysigrwydd cyflymu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen gynnal a chadw barhaus.

Nodwn fod ceisiadau ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo ar gyfer 2024-25 wedi gwario £10 miliwn y tu hwnt i gyllideb y cynllun. Rydym yn gofyn am eglurhad ar sut mae ceisiadau i'r cynllun yn cael eu blaenoriaethu ac a oedd unrhyw geisiadau aflwyddiannus ar gyfer 2024-25 yn cynnwys tomenni 'risg uchel' (h.y. categori C a D).

Rydym yn pryderu am awgrym y Dirprwy Brif Weinidog bod diffyg capasiti i gyflawni gwaith cynnal a chadw tomenni nas defnyddir yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau digon o gapasiti a gallu i gyflawni’r rhaglen cynnal a chadw barhaus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif yn flaenorol y bydd angen £0.5 biliwn dros y deng mlynedd nesaf i dalu cost lawn y rhaglen adfer ac adennill tomenni glo nas defnyddir. Roedd y sylwadau a wnaed i gyn Lywodraeth y DU i rannu’r gost yn aflwyddiannus. Rydym yn ceisio sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau clir i Lywodraeth bresennol y DU rannu cost y rhaglen.

## Argymhellion

**Argymhelliad 4.** Dylai’r Dirprwy Brif Weinidog adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ynghylch y gost o lanhau ac unrhyw waith adfer yn dilyn y tirlithriad yn y domen lo nas defnyddir yng Nghwmtyleri. Dylai hefyd egluro lle bydd y costau hyn yn disgyn, ac a fydd cyllid ar gael (a faint) drwy'r Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo i'w talu.

**Argymhelliad 5.** Dylai’r Dirprwy Brif Weinidog:

- esbonio sut mae ceisiadau i'r Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo yn cael eu blaenoriaethu;
- egluro a oedd unrhyw geisiadau aflwyddiannus ar gyfer 2024-25 yn cynnwys tomenni 'risg uchel' (h.y. categori C a D); a
- egluro cyfanswm y dyraniad ar gyfer y cynllun ar gyfer 2025-26, gan gynnwys y nifer rhagamcanol o domenni nas defnyddir a fydd yn elwa o waith cynnal a chadw ac adfer o ganlyniad i'r cynnydd yn y dyraniad.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog:

- roi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei disgwyliad i Lywodraeth bresennol y DU rannu cost y rhaglen adfer ac adennill hirdymor ar gyfer tomenni glo nas defnyddir Cymru, a
- darparu manylion unrhyw drafodaethau rhyng-Weinidogol ar y mater hwn ers i Lywodraeth y DU gael ei ffurfio yn haf 2024.

# 3. Rheoli perygl llifogydd

**28.** Mae cyllid refeniw ar gyfer rheoli perygl llifogydd a chyflenwi polisi dŵr wedi gostwng o £4.23 miliwn i £2.98 miliwn. Mae cyllid cyfalaf wedi cynyddu, o £27 miliwn i £30.02 miliwn. Mae'r cynnydd mewn cyfalaf yn cael ei ariannu drwy drosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn.

**29.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi "cynnal y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd". Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, dywedodd ei fod yn hyderus bod y dyraniad cyllidebol ar gyfer 2025-26 yn parhau i fod yn ddigonol.

**30.** Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei adroddiad, Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Canfu'r adroddiad y bydd mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd y mae rhagamcanion newid hinsawdd yn y dyfodol yn eu creu ledled Cymru yn gofyn am gynnydd o 3.4 ar y lefelau ariannu presennol. Pan ofynnwyd iddo sut yr ystyriwyd yr adroddiad wrth baratoi dyraniadau cyllidebol, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod wedi newid dull gweithredu'r Llywodraeth o ran y raddfa a'r math o fuddsoddiad cyfalaf a llifogydd y mae'n ei wneud. At hynny, dywedodd fod yr adroddiad yn gwneud yr achos yn glir iawn a bod y Llywodraeth yn gweithredu arno i sicrhau buddsoddiad parhaus dros y cyfnod hwnnw o 100 mlynedd.

## Ein barn ni

Yn ystod cyfnod o bythefnos ar ddiwedd 2024, yn dilyn Stormydd Bert a Darragh, profodd Cymru ddigwyddiadau llifogydd sylweddol, gan achosi aflonyddwch a difrod eang i gartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol. Cafodd cymunedau eu gadael wedi'u difetha. Gyda digwyddiadau tywydd eithafol yn debygol o ddigwydd yn amlach o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae disgwyl i'r risg o lifogydd gynyddu, ynglŷn â'r gost o'i reoli.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn glir bod amddiffyn cymunedau rhag y perygl o lifogydd yn flaenoriaeth, gan fuddsoddi'n drwm mewn rheoli perygl llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, y farn yn gyffredinol yw y bydd angen cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad er mwyn cadw i fyny â'r newid yn yr hinsawdd. Yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bwriad i "[d]diweddaru [ei] gofynion buddsoddi hirdymor gan ddefnyddio'r data risg a'r rhagolygon diweddaraf ynghylch y newid yn yr hinsawdd". Roedd

adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru i fod i lywio'r gwaith hwn. Er gwaethaf honiad y Dirprwy Brif Weinidog bod canfyddiadau'r adroddiad wedi newid dull Llywodraeth Cymru o ran buddsoddi, nid ydym wedi gweld tystiolaeth o hyn eto. Byddem yn croesawu eglurhad manylach ar y mater hwn.

Rydym yn nodi'r gostyngiad yn y dyraniad refeniw ar gyfer rheoli perygl llifogydd a chyflenwi polisi dŵr. Byddem yn croesawu esboniad o hyn.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog roi rhagor o fanylion am sut y mae canfyddiadau adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, wedi newid dull Llywodraeth Cymru o ran maint a math y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog;

- esbonio'r rheswm dros y gostyngiad o £1.25 miliwn mewn cyllid refeniw ar gyfer rheoli perygl llifogydd a chyflenwi polisi dŵr, a
- darparu manylion unrhyw asesiad a wnaed o effaith y gostyngiad hwn ar gyflawni gweithgareddau llifogydd Awdurdodau Rheoli Risg.

# 4. Adfer natur

## Rhaglen Rhwydweithiau Natur

**31.** Mae cynnydd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw 'bioamrywiaeth, tystiolaeth a mawndiroedd' o £11.44 miliwn i £11.52 miliwn. Mae'r dyraniad cyfalaf yn parhau i fod yn £12.5 miliwn. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cynnwys y Rhaglen Rhwydweithiau Natur (sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig), Partneriaethau Natur Lleol a'r Rhaglen Weithredu Cenedlaethol ar Fawndiroedd, ymhlith pethau eraill.

**32.** Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn tynnu sylw at werth y Gronfa Rhwydweithiau Natur (sy'n dod o dan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur) fel yr unig grant gan Lywodraeth Cymru sy’n galluogi prosiectau partneriaeth aml-flwyddyn i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y Gronfa Rhwydweithiau Natur wedi’i gordanysgrifio’n gyson.

**33.** Wrth wneud sylwadau ar gyllid ar gyfer y Rhaglen Rhwydweithiau Natur ar gyfer 2025-26, mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud:

> *Rwyf wedi ystyried yn ofalus iawn y potensial i ehangu cwmpas y rhaglen Rhwydweithiau Natur yn unol â'r uchelgais y gwn y mae'r Pwyllgor yn ei rannu â mi. At ei gilydd, deuthum i'r casgliad nad oedd digon o hyblygrwydd ar draws elfennau eraill y gyllideb i ehangu'r rhaglen ymhellach y flwyddyn ariannol nesaf.”*

**34.** Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, ategodd y Dirprwy Brif Weinidog y pwynt hwn, gan ychwanegu:

> *“I'm keen to work towards additional funding, and part of this could well be unlocking private finance with real integrity, real ethical investment that is complementary to and additional to, and allows us to go at a greater scale and pace.”*

**35.** Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi galw am lansio’r Gronfa Rhwydweithiau Natur nesaf yn y gwanwyn (gyda chymeradwyaeth prosiectau erbyn yr hydref) i alluogi cyflawni yn unol â’r tymhorau, ac am gyllid tymor hwy. Holodd y Pwyllgor y Dirprwy Brif Weinidog ynghylch hyn, a ddywedodd y canlynol:

> *"we can definitely work with the National Lottery Heritage Fund to explore that option of having a window—an early window—for some applications for the next round, so it can work with that seasonal approach there. But it will need to work with the National Lottery Heritage Fund timetable and also allow enough time for stakeholders to put forward good applications as well."*

**36.** Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r uchelgais i gael cyllid tymor hwy wedi'i sefydlu.

## Disodli cyllid LIFE yr UE

**37.** Ers colli cronfa LIFE yr UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi galw dro ar ôl tro am gyllid digonol i'w disodli.

**38.** Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, dywed Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> *"now that the UK Government seems to be reprofiling its 'Levelling Up Fund' – envisioned as a replacement of Structural Funds but not in any way a replacement of LIFE funds – this would be an excellent opportunity to work with them on trialling a cross-border (or at least accessible to all four UK nations) fund that can supply that kind of multi-million restoration project, that makes such a significant contribution to nature restoration."*

**39.** Pan ofynnwyd iddo a yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am gronfa adfer natur y DU i ddisodli cronfa LIFE yr UE, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y canlynol:

> *"We made representations to the previous UK Government, and we had no response, but we'll keep on making those representations about replacement funding. But, meanwhile, I think it's important to say, whilst we would welcome, if you like, replacement...it's vital that we just get on with using the money that we have available".*

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

**40.** Mae rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi'i hanelu at gymunedau a sefydliadau cymunedol i adfer byd natur yn eu hardaloedd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae cyllid refeniw ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Rhaglen Rhwydweithiau Natur wedi gostwng o £2.95 miliwn i £2.65 miliwn. Mae gostyngiad hefyd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb cyfalaf o £19.79 miliwn i £12.56 miliwn.

**41.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog, mae'r gostyngiad yn y dyraniad ar gyfer y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur "yn adlewyrchu arwyddocâd y pwysau mewn mannau eraill, gan gynnwys ar gyfer ansawdd dŵr a diogelwch cronfeydd dŵr, ond mae gwerth y rhaglen wedi'i gydnabod drwy gynnal lefel sylweddol o fuddsoddiad". Mae'n mynd ymlaen i ddweud, er gwaethaf y gostyngiad, "bydd y lefel hon o gyllid yn ein galluogi i barhau â gwaith cadarnhaol y rhaglen a chefnogi'r Partneriaethau Natur Lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y gall y gwaith hwn gefnogi nifer o ymrwymiadau'n Rhaglen Lywodraethu".

**42.** Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog y gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gan dynnu sylw at fanteision y rhaglen. Dywedodd y canlynol:

> *"It's not just the transformation of spaces in local communities; it's the engagement exercise with local communities that brings people with us and it excites them about the potential of transforming nature and doing good things for nature."*

**43.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i leihau unrhyw effaith yn sgil y gostyngiad yn y dyraniad. Ychwanegodd, os daw cyllid ychwanegol i law yn ystod y flwyddyn, y byddai'n ystyried cynyddu'r dyraniad ar gyfer y rhaglen.

**44.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi'i hymestyn i fis Hydref 2027.

## Ein barn ni

Mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn ymyriad allweddol wrth gyflawni'r targed byd-eang i ddiogelu a rheoli 30% o dir a moroedd yn effeithiol ar gyfer byd natur ('30 erbyn 30'), y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo. Dros ddwy flynedd yn ôl, fe wnaeth Llywodraeth Cymru addo "gweithredu ar

unwaith” tuag at ‘30 wrth 30’ drwy “ehangu a chynyddu’r” Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Ers hynny, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hyn.

Y llynedd, dywedwyd wrthym fod sefyllfa ariannol anodd Llywodraeth Cymru yn golygu nad oedd cynyddu buddsoddiad yn y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn opsiwn. Yn anffodus, ac er gwaethaf cynnydd cyffredinol yng nghyllideb yr adran, mae'r neges eleni yr un fath. Os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd targed '30 erbyn 30', ac ymrwymiadau ehangach y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, rhaid iddi flaenoriaethu buddsoddiad mewn natur.

Yn ein hadroddiad, Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud y defnydd gorau o'r cyllid presennol i gefnogi cyflawni '30 erbyn 30'. Felly, rydym yn falch o glywed bod y Dirprwy Brif Weinidog yn agored i adolygu amseriad y cylchoedd cyllido ar gyfer y Cyllid Rhwydweithiau Natur er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl. Byddem yn croesawu diweddariad ar y mater hwn maes o law.

Mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ffynhonnell hanfodol o gyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni dros natur ar lawr gwlad. Fel yr amlygwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog, mae’r rhaglen yn mynd y tu hwnt i gyflawni canlyniadau natur cadarnhaol – mae’n cynyddu cysylltiad â natur, yn helpu i ysgogi ymddygiad o blaid yr amgylchedd, yn cefnogi swyddi gwyrdd a datblygiad sgiliau gwyrdd. Rydym yn pryderu am effaith y gostyngiad mewn cyllid y rhaglen ar bartneriaid cyflawni a sicrhau canlyniadau. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gweithio gyda phartneriaid i liniaru hyn. Rydym yn gofyn am sicrwydd y bydd unrhyw gyllid ychwanegol a allai fod ar gael i’r Dirprwy Brif Weinidog yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllid y rhaglen.

Rydym yn falch o glywed bod y Dirprwy Brif Weinidog yn bwriadu parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar gynllun i ddisodli rhaglen ariannu LIFE yr UE. Byddem yn croesawu manylion unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud hyd yn hyn.

**Argymhelliad 9.** Os bydd cyllid ychwanegol ar gael i'r Dirprwy Brif Weinidog yn ystod y flwyddyn, dylai ymrwymo i gynyddu'r cyllid ar gyfer y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur fel ei bod, cyn belled ag y bo modd, yn dychwelyd i lefelau 2024-25.

**Argymhelliad 10.** Dylai’r Dirprwy Brif Weinidog esbonio sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i liniaru’r effaith yn sgil lleihau’r dyraniadau i’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog ymgysylltu â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ymchwilio i ddichonoldeb lansio'r Gronfa Rhwydwaith Natur nesaf yn y gwanwyn (gyda chymeradwyaeth prosiectau erbyn yr hydref) i alluogi cyflawni yn unol â'r tymhorau, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y canlyniad cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sylwadau y mae wedi'u gwneud hyd yn hyn i Lywodraeth y DU ar gynllun i ddisodli rhaglen ariannu LIFE yr UE, gan gynnwys cwestiynau allweddol, a'r canlyniadau.

# 5. Gwastraff

**45.** Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos cynnydd o 10.5% yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw 'effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol' o £32.4 miliwn i £35.8 miliwn. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb cyfalaf wedi gostwng 10.7%, o £46.85 miliwn i £41.85 miliwn.

**46.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod y cyllid adnoddau ychwanegol er mwyn "[p]arhau i adeiladu ar berfformiad Cymru ar ailgylchu, sydd gyda'r gorau yn y byd, ac i wireddu'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau a deunyddiau am gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff." Mae'n dweud bod y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf yn adlewyrchu "proffil prosiectau sydd ar y gweill", ond rhagwelir y bydd y galw am gyllid yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

## Cynnydd tuag at dargedau ailgylchu statudol

**47.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ailgylchu statudol gofynnol. Rhaid i bob awdurdod lleol gyrraedd y targed ailgylchu o 64% ar gyfer 2019-20 bob blwyddyn nes bod y targed yn cynyddu i 70% o 2024-25 ymlaen.

**48.** Mae'r ystadegau diweddaraf (Hydref 2024) yn dangos bod 18 o'r 22 awdurdod wedi cyrraedd y targed ailgylchu o 64% yn 2023-24. Mae chwe awdurdod wedi cyrraedd y targed o 70% yn 2023-24.

**49.** Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog fod awdurdodau ar lefelau gwahanol o ran ailgylchu. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau i wella perfformiad ailgylchu ac yn darparu cyllid iddynt. Dywedodd y bydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu, ledled y DU, sydd i fod i gychwyn ym mis Ebrill 2025, yn rhyddhau cyllid ychwanegol yn ôl yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i'w galluogi i fynd hyd yn oed ymhellach ar ailgylchu.

## Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

**50.** Bydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn symud y gost o ymdrin â gwastraff pecynnu i fwrdd o gyllid cyhoeddus ac ymlaen i gynhyrchwyr deunydd pecynnu, a fydd yn talu am y gost lawn o reoli gwastraff pecynnu cartrefi. Bydd taliadau'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol i dalu costau casglu, rheoli, ailgylchu a chael gwared ar wastraff pecynnu cartrefi.

**51.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud mai bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai taliadau i awdurdodau o'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr fod "yn ychwanegol at y cyllid y mae Awdurdodau Lleol wedi'i dderbyn yn flaenorol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol".

## Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru

**52.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill ar Gynllun Dychwelyd Ernes y DU. Wedi'i drefnu'n wreiddiol ar gyfer mis Hydref 2025, mae'r cynllun wedi cael ei ohirio am ddwy flynedd.

**53.** Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes wedi'i deilwra ar gyfer Cymru.

**54.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025-26 i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru. Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog y byddai cyflwyno cynllun wedi'i deilwra yn arwain at gynnydd mewn costau, gan ychwanegu bod y Llywodraeth yn cydnabod hynny a'i bod wedi cynllunio ar gyfer hynny. Fodd bynnag, honnodd mai cynllun wedi'i deilwra yw'r peth iawn i'w wneud, gan ddweud y canlynol:

> *"if we have to commit some resource to doing this, and doing it properly, and becoming not just the best in recycling, but the best in reuse, and developing those job opportunities that come from it, well, that's an investment that's worth doing."*

**55.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y cynllun yn 2025-26, gan bwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â phryderon rhai rhanddeiliaid am y dull sy'n cael ei fabwysiadu. Ychwanegodd y bydd unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r cynllun yn cael eu hystyried yn y rowndiau cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**56.** Pan ofynnwyd iddo am yr amserlen y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno'r cynllun, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai mor gynnar â phosibl yn y Senedd nesaf ac nid ymhell i ffwrdd fis Hydref 2027 (pan fydd Cynllun Dychwelyd Ernes y DU ar fin cychwyn).

## Ein barn ni

Mae safle Cymru fel yr ail wlad orau yn y byd o ran ailgylchu yn gyflawniad sylweddol a chanmoladwy. Fel yr amlinellwyd eisoes yn ein llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog (Medi 2024), mae cynnydd wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod cryn amrywiad o hyd mewn perfformiad ar draws awdurdodau lleol.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym y bydd taliadau o'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn rhyddhau cyllid ychwanegol yn ôl yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i'w galluogi i fynd hyd yn oed ymhellach ar ailgylchu. Mae hyn yn awgrymu y bydd cyllid sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar reoli gwastraff pecynnu plastig yn parhau i gael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau ailgylchu.

O ystyried y galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar gyllidebau awdurdodau, mae'n bosibl y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ailgyfeirio i ddarparu gwasanaethau blaenoriaeth eraill. Byddem yn croesawu manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau gyda'r bwriad o sicrhau y bydd y "cyllid ychwanegol" hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gwelliannau o ran perfformiad ailgylchu ac uchelgeisiau ehangach economi gylchol.

Yn ein llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog, gwnaethom bwysleisio'r angen i sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru yn derbyn eu cyfran deg o gyllid drwy'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr Mewn ymateb, rhoddodd sicrwydd bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â'u cymheiriaid ledled y DU i gyflawni hyn. Rydym yn deall bod y model talu sylfaenol bellach wedi'i gytuno ac y bydd yn seiliedig, yn rhannol o leiaf, ar 'bolisïau ac amgylchiadau cenedlaethol'. Byddem yn croesawu esboniad o beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi gwneud yn glir ei bwriad i gynnwys cynwysyddion diodydd wedi'u gwneud o wydr mewn Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y penderfyniad i gyflwyno cynllun wedi'i deilwra ar gyfer Cymru yn cael ei ysgogi gan yr awydd i gyflawni hyn. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym fod ymgynghoriad ar y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio ar gyfer 2025-26. O ystyried bod llawer o'r gwaith sylfaenol eisoes wedi'i wneud, rydym yn disgwyl i'r Dirprwy Brif Weinidog ymrwymo i amserlen uchelgeisiol ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes wedi bod yn destun oedi o ddwy flynedd. Rydym yn awyddus, felly, i weld cynnydd cyflym tuag at ddatblygu a gweithredu cynllun wedi'i deilwra

Er gwaethaf ein cefnogaeth i Gynllun Dychwelyd Ernes, rydym yn ymwybodol o bryderon parhaus am effaith y cynllun ar fusnesau, prosesau ailgylchu awdurdodau lleol, ac ar gontractau presennol yr awdurdodau gyda Chyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau. Rydym yn disgwyl i'r Dirprwy Brif Weinidog barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod datblygiad y cynllun i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog nodi ei ddealltwriaeth o sut y bydd 'polisïau ac amgylchiadau cenedlaethol' yn cael eu hystyried yn y fethodoleg taliadau sylfaenol ar gyfer y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog egluro a fydd "cyllid ychwanegol" sy'n deillio o gyflwyno'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer y cynllun pecynnu plastig yn cael ei 'neilltuo' ar gyfer gwasanaethau ailgylchu neu a fydd awdurdodau lleol yn gallu ei ailgyfeirio i ddarparu gwasanaethau eraill, er enghraifft, gofal cymdeithasol ac addysg.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog ddarparu amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes wedi'i deilwra ar gyfer Cymru/asesiad cost cychwynnol o gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes wedi'i deilwra.

# 6. Llywodraethu amgylcheddol

**57.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw 'deddfwriaeth, gweithredu, llywodraethiant a chyfathrebu ym maes yr amgylchedd' wedi cynyddu o £0.64 miliwn i £1.98 miliwn.

**58.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn esbonio bod y dyraniad hwn yn darparu cyllideb ar gyfer costau deddfwriaeth, costau llywodraethiant a chostau cyfreithiol rhaglenni amgylcheddol, gwaith paratoi ar gyfer y corff llywodraethu amgylcheddol newydd, ac ymgorffori gwaith ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Polisi Adnoddau Naturiol, ymhlith pethau eraill.

## Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

**59.** Ers mis Mawrth 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu mesurau interim diogelu'r amgylchedd i bontio'r bwlch rhwng diwedd cyfnod pontio Gadael yr UE a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru. Arweinir y mesurau gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

**60.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn egluro bod cyllid ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru wedi cynyddu i dalu costau dau Ddirprwy Asesydd, a benodwyd ym mis Mai 2024. Yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn hyderus y byddai hyn yn arwain at gynnydd yn allbynnau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (ar ffurf adroddiadau i Weinidogion Cymru).

## Corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru

**61.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bwriad i gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) i'r Senedd ym mis Mehefin 2025. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol newydd, ymhlith pethau eraill.

**62.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer y corff newydd. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn Ymgynghoriad Papur Gwyn 2024, yn datblygu costau manylach ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil, ond bod "costau ar gyfer 2025/26 yn gyfyngedig". Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd yn rhaid iddynt roi adnoddau digonol a chyllid ar gyfer y corff newydd.

**63.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Brif Weinidog a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu corff cysgodol cyn i'r corff statudol gael ei ffurfio. Dywedodd bod y Llywodraeth yn dal i ystyried hynny a'i fod yn un o'r opsiynau y mae'n edrych arno, ond bod ffyrdd eraill o'i wneud.

## Ein barn ni

Yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom argymell sefydlu corff cysgodol yn gynnar i ganiatáu i lawer o'r gwaith sylfaenol gael ei wneud cyn ffurfio'r corff statudol. Mae tystiolaeth y Dirprwy Brif Weinidog yn awgrymu nad yw wedi diystyru hyn. Er bod hyn yn galonogol, mae amser yn rhedeg allan yn gyflym. Er mwyn gwireddu manteision corff cysgodol, byddai angen ei sefydlu yn y dyfodol agos. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi eglurder ynghylch y dull y mae'n ei fabwysiadu i sicrhau trosglwyddiad esmwyth o'r mesurau interim diogelu'r amgylchedd i'r corff statudol newydd.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau bod Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sydd ar ddod yn darparu ar gyfer amserlen ddigon uchelgeisiol ar gyfer sefydlu'r corff llywodraethu amgylcheddol statudol annibynnol newydd.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog:

- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth o'r mesurau interim diogelu'r amgylchedd i'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd, gan gynnwys unrhyw asesiad o'r costau cysylltiedig ar gyfer pob opsiwn. Dylai egluro a fydd y costau hyn yn syrthio yn 2025-26, a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb, a

- chadarnhau pryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar yr opsiwn a ffefrir ganddo ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y penderfyniad hwn.

# 7. Mynediad i gefn gwlad

**64.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw 'tirweddau dynodedig a mynediad i gefn gwlad' wedi cynyddu o £11.63 miliwn i £13.05 miliwn. Mae'r dyraniad cyfalaf yn parhau i fod yn £8.9 miliwn.

**65.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn egluro bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, cynnal a chadw a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, a nifer o raglenni, gwasanaethau ac ymyriadau i gyflawni blaenoriaethau o ran mynediad a hamdden, mannau gwyrdd a rhandiroedd, ymhlith pethau eraill.

**66.** Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft. Mae Cerddwyr Cymru yn tynnu sylw at ymchwil gan y New Economics Foundation a ganfu fod seilwaith sy'n galluogi mynediad cyhoeddus i gefn gwlad wedi cael ei esgeuluso. Yn ôl yr ymchwil, mae rhwystrau yn cynnwys strwythurau anhygyrch (e.e. camfeydd neu giatiau cul), llwybrau ac arwyddion gwael, a diffyg gwybodaeth gyhoeddus. Mae Cerddwyr Cymru yn galw am gynnydd yn y Grant Gwella Mynediad[1] i wella seilwaith mynediad.

**67.** Wrth wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil uchod, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu bron 500 o brosiectau ledled Cymru; 125 cilometr o welliannau hawl tramwy cyhoeddus yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. O'r prosiectau hynny, roedd ychydig o dan 90 er mwyn cael gwared ar rwystrau ffisegol i fynediad a gwella hygyrchedd llwybrau. Dywedodd fod y Grant Gwella Mynediad wedi cael ychydig yn llai na £6 miliwn o gyllid yn ystod y tair blynedd diwethaf, gyda £2 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025-26 i barhau â'r gwaith.

## Ein barn ni

Yn ystod ein hymchwiliad ar fioamrywiaeth, clywsom am bwysigrwydd gwella mynediad at natur er mwyn cynyddu cysylltiad â natur a sbarduno ymddygiad cadarnhaol fel rhan o'r agenda adfer natur.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer sylweddol o brosiectau sydd â'r nod o wella mynediad yn y blynyddoedd diwethaf. Serch

[1] Darperir y Grant Gwella Mynediad i bob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol sydd â chyfrifoldebau hawliau tramwy cyhoeddus. Nod y grant yw gwella mynediad i gefn gwlad, mannau gwyrdd a thir mynediad agored. Darperir y grant drwy fformiwla a chaiff ei bwysoli yn ôl hyd hawliau tramwy cyhoeddus, maint y mynediad, a'r boblogaeth.

hynny, mae pryderon yn parhau ynghylch seilwaith fel rhwystr i fynediad. Byddem yn croesawu esboniad o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael, y tu allan i'r Grant Gwella Mynediad, i fynd i'r afael â hyn.

Rydym yn gofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Brif Weinidog fod gan bob awdurdod lleol Gynllun Gwella Hawliau Tramwy cyfredol a'u bod yn gwneud cynnydd digonol tuag at gyflawni.

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog:

- egluro a yw pob awdurdod lleol wedi cyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 10 mlynedd diwygiedig yn dilyn yr adolygiad statudol diweddaraf;
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau i sicrhau cynnydd tuag at gyflawni'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.
- darparu manylion y cyfleoedd ariannu sydd ar gael i awdurdodau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

# 8. Morol

**68.** Mae'r dyraniad refeniw i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb 'polisi morol, tystiolaeth ac ariannu' wedi cynyddu o £1.66 miliwn i £2.36 miliwn. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud y bydd hyn yn ariannu gwaith i "[g]anolbwyntio ar gynllunio morol a thrwyddedu, bioamrywiaeth a datblygu polisi ar y newid yn yr hinsawdd."

**69.** Mae Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 yn nodi gwybodaeth am reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynlluniau ar gyfer gwelliannau. Nid oes unrhyw gyllid disodli ar gyfer 2024 ymlaen. Mae'r Cynllun Gweithredu blynyddol ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cyd-fynd â'r fframwaith ac mae'n nodi'r camau gweithredu blaenoriaeth i wella rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Y cynllun gweithredu diweddaraf yw'r un a gyhoeddwyd ar gyfer 2022-23.

**70.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i reoli ardaloedd morol gwarchodedig yn hytrach nag aros am fframwaith newydd. Dywedodd fod y cynllun grant ar gyfer rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar waith ac yn hybu'r camau gweithredu.

**71.** Mewn ymateb i gwestiwn, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog yr her o gydbwyso'r galw am ddatblygiadau ynni gwynt ar y môr â chadwraeth forol, gan ddweud ei bod yn broses o ddysgu.

## Heriau adfer morwellt a chyllid

**72.** Mae'n ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "sefydlu cynllun wedi'i dargedu i hyrwyddo gwaith adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein harfordir". Yn ystod ymchwiliad diweddar y Pwyllgor hwn i fioamrywiaeth, mynegodd rhanddeiliaid rwystredigaeth bod sefydliadau'n gorfod gwneud cais am arian grant i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol yn hytrach na'i fod yn cael ei ariannu'n uniongyrchol. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog fod cyllid i i gefnogi'r gwaith o adfer morwellt "ar gael drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig".

**73.** Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer morwellt a morfa heli, gan

dynnu sylw at dros £1 miliwn a ddyrannwyd ers 2021 drwy raglenni fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a’r Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol.

**74.** Ar 10 Ionawr, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi “£100,000 o gyllid ychwanegol i gefnogi datblygu Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol Rhwydwaith Morwellt Cymru ym mlynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26.” Roedd y datganiad yn nodi fel a ganlyn:

> *“Bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu Rhwydwaith Morwellt Cymru i ddatblygu strwythur llywodraethu a model ariannu. Bydd hyn yn galluogi’r Rhwydwaith i gael mynediad i gyllid hirdymor a chynaliadwy o amrediad o ffynonellau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i helpu i weithredu’r cynllun gweithredu.”*

## Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar hyn o bryd. Er ein bod yn nodi sylwadau’r Dirprwy Brif Weinidog bod rheolaeth weithredol yn parhau drwy’r cynllun grant, mae’r dull tameidiog hwn mewn perygl o danseilio nodau cadwraeth hirdymor Llywodraeth Cymru. Ein barn yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cwblhau fframwaith newydd, er mwyn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer cadwraeth forol y gall yr holl randdeiliaid ei ddeall.

Credwn fod adfer morwellt a morfa heli yn hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth a dal a storio carbon. Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Dirprwy Brif Weinidog am £100,000 ychwanegol o gyllid, a fydd yn cefnogi datblygiad Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog flaenoriaethu cwblhau Fframwaith newydd ar gyfer Rheoli’r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig i ddarparu cyfeiriad clir a strategol ar gyfer polisïau Llywodraeth Cymru ar gadwraeth forol.

# 9. Cyfoeth Naturiol Cymru

**75.** Mae cyllid refeniw ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynyddu £19.12 miliwn, o £124.34 miliwn i £143.4 miliwn. Mae cyllid cyfalaf wedi cynyddu o £25.11 miliwn i £27.81 miliwn. Mae'r cynnydd mewn dyraniadau yn cael ei ariannu'n bennaf trwy drosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn.

**76.** Dywed **naratif y Gyllideb Ddrafft** y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn cynnydd mewn cyllid, gan gynnwys £5 miliwn ychwanegol i "hybu ei gapasiti i ymdrin â chydsyniadau seilwaith yn brydlon ac i ddarparu'r mewnbwn angenrheidiol yn y prosesau defnydd tir a chynllunio morol".

**77.** Ym mis Hydref 2024, **darparodd Llywodraeth Cymru fenthyciad o £19 miliwn** i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn talu atebolrwydd treth nas talwyd yn dilyn ymchwiliad gan Gyllid a Thollau EF (CThEF). Roedd y bil treth yn ymwneud â materion cydymffurfio hanesyddol â rheolau gweithio oddi ar y gyflogres a'r defnydd o gontractwyr. Dywedodd papur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet fod trafodaethau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a CThEF i gyrraedd setliad terfynol yn parhau. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd y cynnydd o £19 miliwn yn nyraniad adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn gysylltiedig â'r rhwymedigaeth dreth.

**78.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod cynnydd o £2.7 miliwn mewn cyllid cyfalaf wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglen trawsnewid gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi mentrau fel trwyddedu morol a llwyfan newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoleiddio. Dywedodd y canlynol:

> *"This is going to allow NRW to provide a much better service... improve its organisational capacity, and deliver more staff capacity to deliver more for the environment".*

**79.** Yn ystod 2024, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru **broses 'Achos dros Newid'** er mwyn arbed £12 miliwn, symleiddio gweithgareddau a chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol. Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y dyraniadau uwch ar wahân i'r broses ailstrwythuro "achos dros newid". Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch canlyniad y broses hon, gan gynnwys cau canolfannau ymwelwyr. Cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog y pryderon hyn, gan ddweud y canlynol:

> *"I know that NRW will want to keep engaging... with Senedd Members and wider stakeholders on what now flows from the case for change."*

**80.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog fod cyllid llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i symud i'w brif Linell Wariant yn y Gyllideb. Mewn ymateb i gwestiwn am oruchwylio'r trefniadau newydd, rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog sicrwydd i'r Pwyllgor y byddent yn cael eu monitro'n agos. Esboniodd fel y ganlyn:

> *"NRW will bring forward their proposals for capital funding each financial year… They'll be presented very specifically to the flood and coastal risk management board, the programme board, for agreement in February. My officials are in regular dialogue with NRW throughout the year to monitor this spend and the investment, the flood investment, reflects our Welsh Government strategic priorities and our commitments as well."*

## Ein barn ni

Amlygodd y benthyciad o £19 miliwn i fynd i'r afael â materion treth fethiannau llywodraethu difrifol yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid ei bod yn fodlon bod goruchwyliaeth briodol bellach ar waith, ac na fydd y materion hyn yn digwydd eto. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog am y sefyllfa ddiweddaraf pan fo'n briodol, o ystyried y trafodaethau parhaus gyda CThEF. Dylai'r diweddariad gynnwys manylion y cynlluniau ar gyfer y benthyciad, gan gynnwys a fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ad-dalu.

Rydym yn croesawu'r cynnydd o £2.7 miliwn mewn cyllid cyfalaf i gefnogi rhaglen trawsnewid gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig ar gyfer gwelliannau i drwyddedau morol a llwyfan cwsmeriaid newydd. Byddwn yn trafod y mater hwn yn fanwl gyda Cyfoeth Naturiol Cymru maes o law.

Codwyd pryderon ynghylch sawl elfen o'r rhaglen 'Achos dros Newid' gyda'r Pwyllgor. Rydym yn pryderu y bydd rhai mesurau arfaethedig, megis rhoi'r gorau i gadw'r canolfannau ymwelwyr a rhoi rheolaeth meysydd parcio ar gontract allanol yn y canolfannau, yn ei gwneud yn llai hyfyw i sefydliadau eraill gymryd drosodd y cyfleusterau hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd y materion hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn graffu flynyddol.

Roedd sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog am gynnal cyllid rheoli perygl llifogydd ac arfordirol yn galonogol. Fodd bynnag, mae cynnwys y cyllid hwn ym mhrif

linell gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn peryglu llai o welededd ac atebolrwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y llifogydd diweddar.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog:

- roi sicrwydd bod camau wedi'u cymryd i gryfhau llywodraethu mewnol a goruchwylio yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yng ngoleuni'r angen am fenthyciad o £19 miliwn ar gyfer materion treth hanesyddol, a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y trafodaethau gyda CThEF cyn gynted â phosibl, gan gynnwys manylion ynghylch a fydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ad-dalu benthyciad Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 21.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau bod digonolrwydd a defnydd cyllid ar gyfer rheoli llifogydd yn cael ei fonitro a'i werthuso, ar ôl iddo gael ei gynnwys ym mhrif linell gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Rhan 2 - Trafnidiaeth

## Trosolwg o'r dull gweithredu a'r dyraniadau

**81.** Wrth gyflwyno cyllideb ddrafft 2025-26, nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai dyma'r tro cyntaf i'r gyllideb ddrafft gynnwys Prif Grŵp Gwariant ar gyfer trafnidiaeth. Y nod oedd cynyddu eglurder a thryloywder. Ymhelaethodd Peter McDonald (Llywodraeth Cymru) ar hyn gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod y newidiadau yn y llinellau gwariant yn y gyllideb yn fwy o esblygiad na chwyldro. Cyfeiriodd at y dyraniadau i'r rhwydwaith ffyrdd strategol fel enghraifft pan fo'r dull newydd wedi dod â mwy o eglurder, gan y byddai manylion y gyllideb bellach yn cael eu rhannu rhwng taliadau cytundebol a chynnal a chadw, a ddylai roi darlun mwy tryloyw o'r gyllideb.

**82.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y dyraniadau yn y gyllideb ar gyfer trafnidiaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Prif Weinidog drwy ganolbwyntio ar 'gysylltu cymunedau' mewn pedwar maes blaenoriaeth:

- Prosiectau rheilffyrdd fel llinellau craidd y Cymoedd a Metro de-ddwyrain Cymru.
- Gwelliannau ffyrdd, gan gynnwys adnewyddu asedau ac atgyweirio ffyrdd awdurdodau lleol.
- Datblygu gwasanaethau bysiau gan fasnachfreinio ac uwchraddio'r fflyd.
- Cefnogi cynlluniau a grantiau trafnidiaeth rhanbarthol.

**83.** Ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet, nodir y bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol yn cyllido gwaith ar "y sector morol" a'r "gwaith parhaus ar ddyfodol Maes Awyr Caerdydd". Mewn ymateb i gwestiwn sy'n gofyn am eglurhad o ran cyfrifoldebau gweinidogion, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ef fydd yn parhau i oruchwylio polisi, er bod Maes Awyr Caerdydd a seilwaith porthladdoedd o dan gylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, er mwyn sicrhau integreiddio a chysoni ar draws pob dull teithio.

## Ein barn ni

Mae creu Prif Grŵp Gwariant yn benodol ar gyfer trafnidiaeth, mewn egwyddor, yn gam cadarnhaol wrth wella tryloywder. Fodd bynnag, mae'n ansicr a yw hyn yn newid gweinyddol yn unig, neu a fydd yn arwain at benderfyniadau cyllido

gwell a chanlyniadau gwell. Byddem yn ddiolchgar am dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet i ddangos sut mae'r dull newydd hwn wedi sicrhau manteision diriaethol o'i gymharu â'r dull blaenorol.

Roeddem yn ddiolchgar i gael papur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gan sicrhau bod gennym gymaint o amser â phosibl i baratoi ar gyfer ein gwaith craffu.

Fodd bynnag, am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym wedi bod yn siomedig ag ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod dogfennau'r gyllideb a phapurau tystiolaeth yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth glir, fanwl a'u bod yn cael eu gwirio'n llawn o ran ansawdd. Rydym yn gwerthfawrogi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio paratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig o fewn amserlenni tyn, a byddem yn fodlon derbyn eglurhad ar ffurf atodiadau i'r papur tystiolaeth, os oes angen.

Yn olaf, o ran cyfrifoldebau gweinidogion, nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet, ond nid yw Cyfrifoldebau'r Cabinet ar wefan Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu ei sylwadau. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad o ran rhannu cyfrifoldebau mewn perthynas â phorthladdoedd a maes awyr Caerdydd.

**Argymhelliad 22.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â phorthladdoedd a maes awyr Caerdydd.

# 10. Polisi trafnidiaeth lleol a rhanbarthol

**84.** Mae llinell wariant newydd 'Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol' yn y gyllideb, sy'n cynnwys £7.8 miliwn o refeniw (heb linell sylfaen, gan ei bod yn newydd) a £120 miliwn o gyfalaf, sy'n codi o linell sylfaen o £40 miliwn, wedi'i chyflwyno.

**85.** Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrthi'n datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd. Rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid cymeradwyo'r rhain erbyn 30 Mehefin 2025. Felly, mae'r newid o gynllunio trafnidiaeth lleol i gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn dod o fewn y cyfnod a gwmpesir gan gyllideb ddrafft 2025-26.

**86.** Trafododd y Pwyllgor gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid i gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol ag Ysgrifennydd y Cabinet. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Rwyf wedi ad-drefnu'r cyllidebau sy'n cefnogi buddsoddiad trafnidiaeth awdurdodau lleol … Mae hyn yn effeithio ar y llinellau yn y gyllideb a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel 'Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol', 'Teithio Cynaliadwy a Llesol' a 'Diogelwch ar y Ffyrdd'. Yn y dyfodol, bydd y llinell 'Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol' yn y gyllideb yn cwmpasu buddsoddiad gan awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru i gefnogi cyflawniad y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig."*

**87.** Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet ddull graddol a fyddai'n arwain at ddatganoli llawn erbyn 2026-27. Eglurodd fod cyllideb 2025-26 yn cynnwys cyllid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gwblhau cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru (TrC).

**88.** Fel rhan o'r dull graddol, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adolygu ceisiadau awdurdodau lleol am gyllid yn 2025-26 i sicrhau eu bod yn gyson â blaenoriaethau rhanbarthol. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y broses hon yn gam cadarnhaol tuag at ddatganoli yn 2026-27 fel rhan o'r dull graddol mewn ffordd ddiogel sy'n sicrhau gwerth am arian.

**89.** Holodd yr Aelodau sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw cynlluniau rhanbarthol yn gwrthdaro â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet sicrwydd i'r Pwyllgor fod gofyniad statudol i gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol gyd-fynd â'r strategaeth drafnidiaeth

genedlaethol. Wrth fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor y gallai dull rhanbarthol leihau atebolrwydd lleol, dywedodd:

> *"Local authorities will still be responsible for delivery of the projects within the regional transport plans, and so there will still be that local accountability, there will still be that local participation by citizens, who can comment on the regional transport plans, who can make submissions about them."*

**90.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd denu cyllid preifat i sicrhau bod y cyllid presennol yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Dywedodd:

> *"It is our ambition that corporate joint committees will be able to lever in funding from the private sector to complement the funding that they themselves allocate to projects, as well as the funding that we allocate, and, indeed, potentially that UK Government allocate as well. So, the success will actually be determined by how much they're able to lever in from the private sector."*

**91.** Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol gynnwys cynlluniau monitro a gwerthuso. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet i'r afael â'r her o werthuso effaith cyllid ffynhonnell gymysg a'i werth am arian, ond dywedodd ei fod wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun cadarn ar gyfer gwerthuso a monitro cyllid Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i rannu'r cynllun gwerthuso a monitro â'r Pwyllgor maes o law.

## Ein barn ni

Bydd trosglwyddo cynllunio a chyllido trafnidiaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn golygu newid sylweddol ym maes llywodraethu. Bydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldebau allweddol, gan gynnwys datblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, adolygu cynigion cyllid awdurdodau lleol, a rheoli cyllid trafnidiaeth yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch a oes gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig y gallu a'r adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. O ystyried mai'r nod yw i'r dull newydd fod ar waith yn llawn erbyn 2026-27, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi ei ddealltwriaeth o ba mor barod yw'r cyd-bwyllgorau i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

Rydym yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mai proses raddol yw hon. Wrth i'r trefniadau symud i'r cam nesaf, mae gwrthdaro buddiannau posibl wrth i'r cyd-bwyllgorau adolygu ceisiadau awdurdodau lleol am grantiau ar gyfer 2025-26. Byddem yn croesawu sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet fod mesurau diogelu clir ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn hyn o beth.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad gan y sector preifat i gefnogi cyllid cyhoeddus mewn trafnidiaeth. Credwn ei bod yn hanfodol bod y partneriaethau hyn yn gweithio er budd y cyhoedd ac nad ydynt yn tanseilio blaenoriaethau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut i helpu cyd-bwyllgorau i ddatblygu partneriaethau â ffynonellau cyllid preifat.

Nodwn fod TrC yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

Yn gyntaf, rhaid i'r fframwaith ddangos yn glir sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario, gan gynnwys arian gan Lywodraeth Cymru, fel y gellir asesu gwerth y buddsoddiad am arian. Yn ail, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith hwn ar waith o ddechrau'r dull cyllido newydd. Yn drydydd, rhaid dangos mewn adroddiadau ar gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol sut mae arian yn cael ei wario ar draws pob maes, gan gynnwys prosiectau teithio llesol a mentrau trafnidiaeth ehangach. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i rannu'r cynllun terfynol â'r Pwyllgor pan fydd yn barod.

**Argymhelliad 23.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet asesu a nodi i ba raddau y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn barod i ysgwyddo eu cyfrifoldebau newydd o ran cynllunio a chyllido trafnidiaeth, gan gynnwys manylion staffio ac adnoddau eraill, gan sicrhau bod ganddynt y gallu a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni'n llawn erbyn 2026-27.

**Argymhelliad 24.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sefydlu a chyfleu mesurau diogelu clir i atal gwrthdaro buddiannau posibl wrth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig adolygu ceisiadau awdurdodau lleol am grantiau, yn enwedig ar gyfer cyfnod cyllido 2025-26.

**Argymhelliad 25.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bydd yn helpu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ffurfio partneriaethau â buddsoddwyr yn y sector preifat, a sicrhau bod y partneriaethau hyn yn cyd-fynd â buddiannau lleol.

**Argymhelliad 26.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, sy'n cael ei ddatblygu gan TrC, yn weithredol o ddechrau'r system gyllido newydd ac yn gallu dangos yn

glir sut mae arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru, yn cael ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 27.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ei gwneud yn ofynnol cynnwys mewn adroddiadau ar gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol fanylion cynhwysfawr ynghylch sut mae arian yn cael ei ddyrannu a'i wario ar draws pob maes, er enghraifft, prosiectau teithio llesol a mentrau trafnidiaeth ehangach, gan gynnwys manylion ynghylch faint sy'n cael ei wario ym mhob maes.

## 11. Teithio llesol

**92.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau lleol gyda chyllid blynyddol i gyflawni cynlluniau teithio llesol, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddosbarthu drwy'r Gronfa Teithio Llesol a weinyddir gan TrC. Mae hyn yn cynnwys dyraniad craidd i wneud gwelliannau parhaus ar raddfa fach, gyda'r gweddill fel cyllid cystadleuol ar gyfer cynlluniau mwy sydd wedi'u datblygu.

**93.** Mae cyllideb ddrafft 2025-26 wedi'i hailstrwythuro ac mae llinell newydd wedi'i chyflwyno yn y gyllideb ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol a theithio llesol. Fodd bynnag, nodir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet fod cyllid teithio llesol ar gyfer 2025-26 "i'w gadarnhau".

**94.** Pan oedd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cyllid teithio llesol ar gyfer 2025-26 wedi'i gynnal o fewn y gyllideb. Cadarnhaodd y byddai cyllid teithio llesol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn cael ei drosglwyddo i gyllidebau rhanbarthol.

**95.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ei flaenoriaeth yw gwneud teithio llesol yn gynhwysol, gan ddweud, os yw strydoedd yn ddiogel i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, y bydd strydoedd yn ddiogel i ni i gyd. Tynnodd sylw at y ffaith bod cyllideb 2025-26 yn canolbwyntio ar wella strydoedd, palmentydd a mynediad at safleoedd bysiau, ynghyd â gosod palmant botymog a chyrbau isel i sicrhau bod modd i bawb symud a theithio yn rhwydd.

**96.** Cododd y Pwyllgor bryderon y gallai'r newid mewn blaenoriaethau i gerdded ac olwyno olygu llai o ffocws ar seilwaith beicio yn y dyfodol. Mewn ymateb, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at weithredu terfyn cyflymder o 20 mya fel gwelliant diogelwch mawr, yr oedd beicio wedi elwa ohono: "We've recently implemented the biggest road safety initiative in 25 years… making roads safer, and that has made cycling safer."

**97.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n cymeradwyo dyfarniadau grant teithio llesol cyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26. Ychwanegodd:

> *"the amounts that will be allocated will depend—I think rightly so—on the assessment of local authority applications. And as I've already outlined, corporate joint committees are going to be able to provide feedback and comment on the applications so that they do align fully with the emerging regional transport plans."*

**98.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet, ar gyfer y cylch hwn, fod pob awdurdod lleol wedi cael ei gyfyngu i un cais o dan elfen cyllido cystadleuol y gronfa. Dywedodd y byddai hyn yn lleihau costau diangen: "Some local authorities were spending between 80 per cent and 90 per cent on consultancy fees… rather than actually on delivery." Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru bellach yn gorchymyn y dylai o leiaf 60 y cant o'r dyraniad craidd gael ei wario ar welliannau uniongyrchol.

**99.** Mewn ymateb i bryderon y gallai pwysau sy'n cystadlu olygu y gallai teithio llesol gael llai o flaenoriaeth o dan gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai hyn yn wir. Dywedodd:

> *"The Active Travel (Wales) Act 2013 requires corporate joint committees to have regard to the integrated network maps for active travel when formulating their regional transport plans. Our guidance for corporate joint committees for developing those plans reinforces this—it signposts to our active travel Act guidance. And, also, active travel plays, I think, a huge role in the emerging regional transport plans."*

**100.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar deithio llesol, gan ddod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru'n dal i fod yn bell o gyflawni'r newid sylweddol mewn teithio llesol y bwriadwyd ei ysgogi trwy [Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013." Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Ddeddf Teithio Llesol yn cael ei hadolygu ac y byddai diffygion neu fethiannau a nodwyd gan yr adolygiad yn cael sylw. Dywedodd y byddai'r arolwg teithio cenedlaethol yn allweddol wrth ddarparu data i asesu i ba raddau yr oedd y Ddeddf wedi llwyddo neu wedi methu.

**101.** Amlygodd adroddiad Archwilio Cymru ddiffygion wrth fonitro a gwerthuso gwariant y Gronfa Teithio Llesol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd gwelliannau yn y maes hwn yn cael eu hintegreiddio i'r dull cyllido rhanbarthol, ac y bydd cynlluniau cyflawni trafnidiaeth rhanbarthol yn cael eu monitro fel rhan o'r dull hwn.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu ffocws Ysgrifennydd y Cabinet ar deithio cynhwysol, a fydd, yn ein barn ni, yn gam cadarnhaol tuag at greu seilwaith mwy diogel a hygyrch i grwpiau sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar am eglurhad o ran sawl mater allweddol.

Mae'r newid arfaethedig o gyllid teithio llesol i gyllidebau rhanbarthol erbyn 2026-27, yn ddealladwy, wedi achosi pryder ynghylch blaenoriaethu. Heb fesurau diogelu ar waith, mae perygl y bydd mentrau trafnidiaeth eraill yn cael eu blaenoriaethu o blaid teithio llesol. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau na fydd cyllid teithio llesol yn cael ei glustnodi yn y dyfodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod teithio llesol yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, hyd yn oed wrth wynebu gofynion sy'n cystadlu. Byddem yn ddiolchgar am sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod mentrau teithio llesol yn cael statws priodol mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

Rydym yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i symleiddio'r broses ymgeisio am grantiau teithio llesol, gan gynnwys ymdrechion i ddibynnu lai ar ffioedd ymgynghori. Byddem yn ddiolchgar am yr wybodaeth ddiweddaraf am asesiad Ysgrifennydd y Cabinet o ba mor effeithiol fu'r mesurau hyn.

Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn ofynnol gwario 60% o'r grant yn uniongyrchol ar fentrau teithio llesol. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sut y gellir gwario gweddill cyfran y grant.

Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn a'r camau a gymerir i geisio lleihau'r swm a gaiff ei wario ar ymgynghorwyr ymhellach yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y newid i gyllid rhanbarthol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) yn cael ei hadolygu. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion ynghylch cwmpas yr adolygiad hwn ac ymrwymiad gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi. Yn ystod y sesiwn graffu, gwnaethom godi pryderon am feini prawf llym ar gyfer dynodi llwybrau teithio llesol. Credwn y dylid defnyddio'r adolygiad fel mecanwaith i ystyried sut y gellir rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i'w gwneud yn haws gweithredu'r Ddeddf, gan gadw ei huchelgais ar yr un pryd.

Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y broses o gyflwyno terfynau cyflymder o 20 mya fel ymyrraeth a fydd yn gwella diogelwch i feicwyr. Rydym yn disgwyl i TrC ystyried ei heffaith ar ddiogelwch beicwyr wrth werthuso'r polisi 20 mya. Dylid hefyd roi sylw i farn y cyhoedd, gan fod canfyddiadau o ddiogelwch yn rhwystr sylweddol i gynyddu'r nifer sy'n beicio.

Mae Archwilio Cymru wedi amlygu sawl mater o ran monitro a gwerthuso cyllid teithio llesol. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau monitro priodol ar waith o dan gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

**Argymhelliad 28.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu dadansoddiad o gyllid teithio llesol fesul rhaglen, gan gynnwys dadansoddiad o bob dyraniad craidd ac elfen gystadleuol y cyllid. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth am lefelau hanesyddol o gyllid, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld yn glir sut mae lefelau cyllid wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

**Argymhelliad 29.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bydd yn sicrhau bod teithio llesol yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn rhanbarthau sy'n wynebu pwysau eraill o ran trafnidiaeth.

**Argymhelliad 30.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y chwe mis nesaf am effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd i symleiddio'r broses ymgeisio am grantiau teithio llesol, gan gynnwys ymdrechion i ddibynnu llai ar ffioedd ymgynghori a chynyddu capasiti a sgiliau mewn awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 31.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu gwybodaeth fanwl am yr adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), gan gynnwys ei chwmpas, y rhanddeiliaid dan sylw, yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ei gwblhau, ac ymrwymiad i gyhoeddi'r canfyddiadau. Dylai'r adolygiad chwilio am gyfleoedd i gyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth ddynodi llwybrau teithio llesol.

**Argymhelliad 32.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn gwerthuso effaith y polisi terfyn cyflymder o 20 mya ar ddiogelwch beicwyr, gan gynnwys a yw wedi effeithio ar y canfyddiad o ddiogelwch i fynd i'r afael â'r rhwystr allweddol hwn i gynyddu'r nifer sy'n beicio.

**Argymhelliad 33.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y caiff effaith buddsoddiadau teithio llesol ei monitro o dan y model cyllido rhanbarthol.

# 12. Cynnal a chadw priffyrdd

**102.** Er bod cyllid cyfalaf ar gyfer gweithrediadau ac adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol wedi cynyddu ychydig bach (£1.1 miliwn) i £186.4 miliwn, nodir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet fod y cynnydd mewn refeniw "yn caniatáu defnydd mwy effeithlon o gyllidebau cyfalaf." Mae'r dyraniad refeniw, ac eithrio y llinell wariant ar gyfer taliadau cytundebol yn y gyllideb, wedi cynyddu £10.58 miliwn i £60.05 miliwn.

**103.** Nodir yn naratif cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru:

> *"Rydym yn buddsoddi £27m o gyllid adnoddau ychwanegol yn y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sylweddol a chyflawni ein hymrwymiad i drwsio cyflwr y ffyrdd. Byddwn yn creu cronfa gwella ffyrdd gwerth £25m i wella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a fydd yn ein galluogi i wella 100km o'r rhwydwaith a lleihau ac atal tyllau mewn ffyrdd rhag digwydd."*

**104.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y £27 miliwn ychwanegol mewn cyllid refeniw a'r gronfa gwella ffyrdd gwerth £25 miliwn yn adlewyrchu dull rhagweithiol o gynnal a chadw ffyrdd. Dywedodd Andy Falleyn (Llywodraeth Cymru) y bydd y gronfa £25 miliwn yn mynd i'r afael â 100km o ffyrdd a thua 30,000 o dyllau mewn ffyrdd ac y bydd hefyd yn gwella cyflwr y ffyrdd i atal problemau yn y dyfodol. O ran gwerth am arian, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai effaith y cyllid yn cael ei monitro.

**105.** Mae naratif y gyllideb ddrafft yn cadarnhau bod cyllideb ddrafft 2025-26 yn cynnwys £5 miliwn o gyllid refeniw "rheolaidd" ar gyfer menter benthyca llywodraeth leol newydd, gan alluogi awdurdodau lleol i fenthyg hyd at £60 miliwn i gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid defnyddio hyn i fynd i'r afael ag amcangyfrif o 60,000 i 70,000 o dyllau mewn ffyrdd. Holodd yr Aelodau a oedd awdurdodau lleol wedi cael digon o eglurder ynghylch y cyllid oedd ar gael ac, yn benodol, a fyddai'r fenter benthyca yn parhau yn y dyfodol. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

> *"My understanding is that local authorities would like that to be replicated in future years. That's something that I'd very much like to see happen, but this is the beginning, I hope, of what will be a concerted effort to address the condition of the road network."*

## Ein barn ni

Mae effaith gynyddol newid hinsawdd ar seilwaith ffyrdd, gan gynnwys gwaith draenio gwaeth a phroblemau o ran strwythurau, yn amlygu'r angen brys am ddull strategol o gynnal a chadw ffyrdd.

Mae angen mwy o eglurder ynghylch y cynnydd o £27 miliwn mewn cyllid ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Nodir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mai dim ond £10.58 miliwn y mae'r gyllideb refeniw ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ac eithrio'r llinell wariant newydd ar gyfer taliadau cytundebol yn y gyllideb, wedi cynyddu. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r £27 miliwn ychwanegol yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd i daliadau cytundebol, fel costau cynnal a chadw'r A465. Ni fydd cyllid sydd eisoes ynghlwm wrth rwymedigaethau cytundebol ar gael at ddibenion eraill ac mae'n debyg ei fod wedi'i gyfyngu i gynnal a chadw'r ffyrdd penodol hyn. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet am y mater hwn, gan gynnwys manylion ynghylch faint o'r £27 miliwn ychwanegol fydd ar gyfer yr A465 (a ffyrdd eraill a reolir o dan gontract) a faint ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ehangach.

Rydym yn croesawu creu'r gronfa gwella ffyrdd gwerth £25 miliwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn i asesu effaith y cyllid. Dylai dangosyddion allweddol gynnwys gwella cyflwr y ffyrdd mewn modd mesuradwy, lleihau costau cynnal a chadw, a mwy o foddhad i ddefnyddwyr y ffyrdd. Credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y dangosyddion hyn.

Mae'r fenter benthyca leol gwerth £60 miliwn o bosibl hefyd yn werthfawr o ran helpu i gynnal a chadw ffyrdd. Mae angen arweiniad clir ar awdurdodau lleol ar sut y bydd y cynllun benthyca yn gweithredu, a chadarnhad cynnar o'r cyllid sydd ar gael iddynt, yn enwedig o ystyried pryderon am yr angen am gynllunio cynnar i sicrhau contractau cynnal a chadw a gwerth am arian.

**Argymhelliad 34.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro a yw'r cyllid ychwanegol o £27 miliwn ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cynnwys dyraniadau ynghlwm wrth daliadau cytundebol, fel costau cynnal a chadw'r A465, gan gynnwys faint o'r £27 miliwn ychwanegol fydd ar gyfer yr A465 a ffyrdd eraill a reolir o dan gontract a faint ar gyfer cynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ehangach.

**Argymhelliad 35.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y gronfa gwella ffyrdd gwerth £25 miliwn yn cael ei chefnogi gan fframwaith monitro a gwerthuso cadarn. Dylai hyn gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol megis gwella cyflwr y ffyrdd mewn modd mesuradwy, lleihau costau cynnal a chadw, a mwy o foddhad i ddefnyddwyr y ffyrdd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i gyflwyno adroddiadau cyhoeddus rheolaidd ar y dangosyddion perfformiad hyn.

**Argymhelliad 36.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi arweiniad clir i awdurdodau lleol ar weithredu'r fenter benthyca leol gwerth £60 miliwn ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd a nodi pryd y bydd cyllidebau'n cael eu cadarnhau i awdurdodau lleol unigol i sicrhau eu bod yn gallu sicrhau'r gwerth mwyaf am arian wrth gynllunio gwaith cynnal a chadw. Dylai hyn gynnwys eglurhad y bydd y £5 miliwn sydd ar gael i awdurdodau lleol yn cwmpasu'r holl gostau benthyca o dan y fenter.

# 13. Trenau

**106.** Mae £380.7 miliwn o gyllid refeniw yn cael ei ddyrannu ar gyfer cymorth gwasanaeth rheilffordd – cynnydd o £13.7 miliwn yn erbyn cyllideb derfynol 2024-25. Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu £181.6 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer cymorth gwasanaeth rheilffordd – cynnydd o £86.1 miliwn o'i gymharu â llinell sylfaen 2025-26, y mae £54.7 miliwn ohono wedi dod o drosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant, a throsglwyddiad o £34.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn.

**107.** Mewn ymateb i gwestiwn am ffynhonnell y cyllid o £54.7 miliwn oedd wedi'i drosglwyddo, dywedodd Peter McDonald y bu rhaid gwneud rhai dewisiadau anodd yn y gyllideb wrth gwblhau prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd. Ychwanegodd:

> *"The end is in sight and we are nearly past the point of maximum risk, but it is difficult in a balance sheet of our size to do multiple big things all at once, and we are doing the A465 and the south-east Wales metro at the same time. That limits the amount of ambition we can have in other areas."*

**108.** Dyfarnwyd cyllid ychwanegol i TrC yn ystod y flwyddyn yn 2023 i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i weithredu. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd y cynnydd yn ddigon a bod angen cynyddu'r refeniw gwerthu tocynnau. Awgrymodd hefyd fod y bwlch rhwng costau gweithredu a refeniw gwerthu tocynnau ar ei uchaf. Mae data TrC yn dangos bod nifer y teithwyr a refeniw gwerthu tocynnau wedi cynyddu mewn cyfnodau perfformiad rheilffyrdd diweddar a bod y gost weithredol fesul teithiwr wedi gostwng.

**109.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn optimistaidd am gynnydd TrC o ran cynyddu refeniw, gan nodi cynnydd o 17% mewn refeniw gwerthu tocynnau eleni, a oedd wedi'i briodoli i gynnydd o 25% yn nifer y teithwyr yn y chwarter diwethaf. Dywedodd:

> *"We're going to be preciously close to seeing the farebox smash through £200 million for the very first time."*

**110.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet y rhagwelir y bydd refeniw yn cynyddu 13% y flwyddyn nesaf.

**111.** Rhennir prisiau tocynnau trên yn brisiau wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio. Mae prisiau wedi'u rheoleiddio fel arfer yn cynyddu bob blwyddyn,

ond mae'r llywodraeth yn rhoi cap ar y rhain. Roedd cap o 4.9% ar y cynnydd ar gyfer 2024-25 yng Nghymru a Lloegr. Nid oes cap ar brisiau heb eu rheoleiddio a TrC sy'n gosod y prisiau hyn.

**112.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet gymhlethdodau prisiau tocynnau, gan gynnwys gwahaniaethau hanesyddol rhwng rhanbarthau. Amlinellodd fod TrC yn datblygu strategaeth symleiddio prisiau, sy'n canolbwyntio ar brisiau seiliedig ar bellter a thocynnau tebyg i docynnau awyren ar gyfer teithiau hirach i wella tegwch a thryloywder. Cydnabu Peter McDonald fod prisiau fforddiadwy yn allweddol i gynyddu nawdd ac, yn ei dro, i leihau'r angen am gymhorthdal cyhoeddus.

**113.** Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet ddyheadau am brosiectau metro y tu hwnt i dde Cymru. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet, y tu allan i Linellau Craidd y Cymoedd, fod seilwaith rheilffyrdd yn eiddo i Network Rail, ac felly byddai'n gofyn am bartneriaeth â Llywodraeth y DU. Dywedodd:

> *"In all other parts of Wales, the rail network is in the hands of Network Rail. So, we're seeking to work in partnership with the UK Government to deliver rail investment here in Wales through the Wales rail board—ultimately, when GBR is established, through a Wales business unit—to provide the investment that is required to bring our rail network up to the standard that passengers should expect, and rightly should expect."*

## Ein barn ni

Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am yr angen i flaenoriaethu prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd, o ystyried ei fod yn brosiect sylweddol sydd â risg uchel o bosibl o ran y costau sy'n codi yn sgil oedi. Bydd sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus yn gam pwysig o ran cynyddu refeniw gwerthu tocynnau a lleihau cymhorthdal cyhoeddus. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud wrthym mai oedi posibl i brosiect Llinellau Craidd y Cymoedd oedd ei bryder mwyaf, o ystyried yr effaith ariannol y byddai'n ei chael. Rydym yn deall bod oedi wedi bod wrth ddarparu cerbydau, ac rydym yn pryderu am yr effaith y gall hyn ei chael ar gyflawni prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd.

Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet yr heriau sy'n gysylltiedig ag ailddyrannu £54 miliwn o fewn y gyllideb drafnidiaeth i gyllido'r prosiect. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd ar y gyllideb ddrafft, rydym yn cefnogi'r prosiect, ond ni ellir rhoi rhyddid llwyr i'r rheilffyrdd. Mae'n parhau'n aneglur o ran ble y daeth y cyllid

hwn a pha feysydd a all fod wedi'u torri o ganlyniad. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ar y pwynt hwn fel y gallwn ddeall yn llawn y cyfaddawdau y mae angen i Ysgrifennydd y Cabinet eu gwneud.

Rydym yn croesawu'r newyddion cadarnhaol am gynnydd yn nifer y teithwyr ac yn nodi'r sylwadau y bydd cynnydd mewn refeniw gwerthu tocynnau yn lleihau'r angen am gymhorthdal cyhoeddus. O ystyried mai TrC sy'n rheoli prisiau heb eu rheoleiddio, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng cynyddu refeniw a chynnal fforddiadwyedd i deithwyr. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch a yw wedi gosod amserlen neu dargedau ar gyfer lleihau cymorthdaliadau cyhoeddus a sut y bydd yn sicrhau bod prisiau heb eu rheoleiddio gan TrC yn fforddiadwy.

Rydym yn croesawu'r strategaeth i symleiddio prisiau, yn enwedig wrth iddi geisio mynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol hirsefydlog. Byddwn yn gofyn i TrC am ragor o fanylion am ddatblygiad y strategaeth hon pan fydd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor fel rhan o'r gwaith craffu blynyddol.

**Argymhelliad 37.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro ffynonellau'r £54 miliwn a ailddyrannwyd o fewn y gyllideb drafnidiaeth i gyllido prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys manylion y meysydd sydd wedi'u torri o ganlyniad.

**Argymhelliad 38.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sefydlu amserlen a thargedau clir ar gyfer lleihau cymhorthdal cyhoeddus ar gyfer prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd ac egluro sut y bydd Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn taro'r cydbwysedd priodol i sicrhau bod prisiau heb eu rheoleiddio yn fforddiadwy.

**Argymhelliad 39.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am oedi o ran gweithgynhyrchu cerbydau, a'i effaith ar wasanaethau rheilffyrdd a thargedau.

# 14. Gwasanaethau bysiau

**114.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb refeniw Cymorth Gwasanaethau Bysiau wedi cynyddu £9.16 miliwn i £132.5 miliwn, tra bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb cyfalaf wedi gostwng £37 miliwn i £31 miliwn.

**115.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid refeniw i gefnogi gwasanaethau bysiau, drwy'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau a'r Grant Rhwydwaith Bysiau. Mae cyllid arall yn cael ei ddyrannu i feysydd cysylltiedig, fel tocynnau rhatach a theithio am bris gostyngol i bobl ifanc.

**116.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr wedi galw am gynnydd o 15% mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau, ond dim ond cynnydd o 7.4% oedd y dyraniad cyllidebol. Dywedodd fod gwasanaethau bysiau yn cystadlu â meysydd eraill yn y gyllideb, ac felly ei fod yn credu bod modd dyrannu cynnydd cystal â phosibl. Pwysleisiodd fod diogelu'r rhwydwaith presennol yn flaenoriaeth wrth i ni symud tuag at fasnachfreinio.

**117.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd tua hanner y £18.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer bysiau, depos a seilwaith gwefru yn cael ei wario ar gerbydau allyriadau isel ar gyfer rhwydwaith TrawsCymru. Dywedodd:

> *"TfW will be purchasing them and then leasing them to the operators for the TrawsCymru service."*

**118.** Mewn datganiad ar 10 Rhagfyr ar ddiwygio bysiau, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gynlluniau i gaffael "depos bysiau strategol mewn ardaloedd allweddol yng Nghymru." Pan oedd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet gynlluniau i brynu depos bysiau strategol, yn enwedig yn ne-orllewin Cymru, lle'r oedd disgwyl i'r dull masnachfreinio ddechrau.

**119.** Roedd adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2024-25 yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effaith y gyllideb ar wasanaethau bysiau. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru: "Mae'r mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yn ategu'r cymorth refeniw gan Lywodraeth Cymru gyda'u cronfeydd eu hunain. Felly nid yw'n bosibl asesu effaith ein cyllideb ar lefelau gwasanaeth bysiau."

**120.** Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, esboniodd Peter McDonald am yr anawsterau o ran asesu union effaith gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau bysiau, oherwydd cyfraniad cwmnïau bysiau preifat. Dywedodd:

> *"We cannot tell a direct relationship story between how each £1 of Welsh Government money went into the black box of the bus balance sheet."*

**121.** Fodd bynnag, nododd y byddai'r dull masnachfreinio yn darparu mwy o dryloywder yn y dyfodol.

## Cynyddu'r nifer sy'n defnyddio bysiau ar ôl COVID

**122.** Mae data'r Adran Drafnidiaeth o ran y nifer sy'n defnyddio bysiau am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024 yn dangos nad yw'r nifer yn cynyddu mor gyflym yng Nghymru ag yn Lloegr ar ôl COVID.

Tabl 1: Teithiau gan deithwyr ar wasanaethau bysiau lleol

| | Blwyddyn hyd at fis Mawrth 2020 (miliwn o deithiau) | Blwyddyn hyd at fis Mawrth 2024 (miliwn o deithiau) | Canran y cyfanswm cyn Covid |
|---|---|---|---|
| Cymru | 92 | 72 | 78.3% |
| Yr Alban | 361 | 334 | 92.5% |
| Lloegr | 4,053 | 3,629 | 89.5% |
| Lloegr y tu allan i Lundain | 1,962 | 1,781 | 90.8% |
| Prydain Fawr | 4,506 | 4,035 | 89.5% |

Ffynhonnell: Ystadegau blynyddol yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer bysiau

**123.** Cododd y Pwyllgor bryderon bod y nifer sy'n defnyddio bysiau yn gostwng, yn enwedig ymhlith deiliaid cardiau rhatach ar ôl COVID. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam y mae Cymru y tu ôl i wledydd eraill y DU, dywedodd Peter McDonald ei bod yn hynod ddiddorol cymharu Cymru â rhanbarthau tebyg yn Lloegr, yn hytrach na chyfanswm Lloegr, oherwydd nad oes gennym ardaloedd trefol mwy crynodedig sydd yn aml yn codi'r cyfartaleddau. Ychwanegodd:

> *"I'm afraid I don't have a better answer other than it's just the general ecosystem at the moment. But what the investment in the rail network shows is that you can buck the trend if you invest in it, and, certainly, as we come to the end of the big CVL project, we'll have a much more wider range of budget choices on the capital side, which Ministers and the committee will be*

*interested in reflecting on, where we seek to spend the money that we'll be no longer spending on the CVL project."*

**124.** Canfu Sgwrs Genedlaethol Gwarant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru (2023) fod 41% o bobl ifanc 16 i 24 oed yn nodi mai trafnidiaeth oedd y prif rwystr rhag cael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet awydd i gyflwyno cynlluniau prisiau tecach i bobl ifanc. Cyfeiriodd at raglenni peilot parhaus, fel cynllun prisiau wedi'u capio yng ngogledd Cymru, a mynegodd uchelgais am gefnogaeth ehangach os bydd rhagor o gyllid ar gael. Fodd bynnag, nododd yr heriau a welwyd mewn rhanbarthau eraill, fel teithio am ddim ar fysiau yn yr Alban i bobl dan 22 oed..

## Ein barn ni

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau 7.4% yn gam cadarnhaol ond mae'n methu'r cynnydd o 15% y gofynnodd y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr amdano. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi pwysleisio bod diogelu'r rhwydwaith presennol yn flaenoriaeth. Serch hynny, mae'r bwlch ariannu sylweddol hwn yn codi pryderon ynghylch a yw'r dyraniad yn ddigonol i gynnal y lefelau presennol o wasanaeth.

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad manwl aml-flwyddyn o gyllid refeniw a chyfalaf yn ôl grant neu faes gwariant, fel y gofynnodd y Pwyllgor amdano yn flaenorol, ac a ddarparwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol ac i sicrhau tryloywder o ran sut y gwneir penderfyniadau cyllido.

Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am y dyraniad cyfalaf gwerth £18.5 miliwn ar gyfer bysiau newydd. Fodd bynnag, ni chyfeirir at y cyllid hwn yn y papur tystiolaeth na naratif y gyllideb. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y dyraniad cyllid hwn.

At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fwriedir i TrC fod yn berchen ar asedau cyfalaf fel bysiau a depos fel rhan o'r newid i wasanaethau masnachfraint. Byddai hwn yn ymrwymiad sylweddol, o ystyried y bydd angen cyllid sylweddol cyson. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan y Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater hwn.

Rydym yn pryderu bod y nifer sy'n defnyddio bysiau yng Nghymru yn parhau i gynyddu'n fwy araf nag mewn rhannau eraill o'r DU ar ôl COVID. Er bod gwahanol esboniadau wedi'u hawgrymu, roedd yn amlwg nad oes dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros y nifer isel. Rydym yn cwestiynu sut y gellir datblygu

rhwydwaith masnachfraint effeithiol heb ddeall hyn yn llawn – er enghraifft, a yw'r cynhyrchion prisiau a thocynnau, llwybrau ac ati yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol presennol hyn?

Rhaid i Lywodraeth Cymru a TrC nodi'r ffactorau sy'n sbarduno'r duedd hon a sicrhau eu bod yn cymryd camau clir i fynd i'r afael â hi wrth weithredu'r fasnachfraint.

Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am gynlluniau i ostwng prisiau tocynnau i bobl ifanc allu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, os bydd cyllid ar gael. Byddai hyn yn gam cadarnhaol tuag at wella mynediad i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am sut y gellid bwrw ymlaen â'r cynigion hyn yn gyflym, os bydd cyllid ar gael.

**Argymhelliad 40.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu dadansoddiad manwl aml-flwyddyn o gyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer gwasanaethau bysiau, wedi'i gategoreiddio yn ôl grant neu faes gwariant.

**Argymhelliad 41.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth am y dyraniad cyfalaf o £18.5 miliwn ar gyfer bysiau newydd, gan gynnwys manylion am sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio, o ystyried nad oedd wedi'i darparu yn y papur tystiolaeth nac yn naratif y gyllideb.

**Argymhelliad 42.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a fwriedir i Trafnidiaeth Cymru fod yn berchen ar asedau cyfalaf, fel bysiau a depos, fel rhan o'r newid i wasanaethau bysiau masnachfraint ac amlinellu goblygiadau ariannol y dull hwn.

**Argymhelliad 43.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y broses fasnachfreinio yn deall yn glir y ffactorau sy'n helpu i gynyddu'n araf y nifer sy'n defnyddio bysiau yng Nghymru ar ôl COVID o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU ac amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy'r broses fasnachfreinio honno.

**Argymhelliad 44.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddatblygu cynlluniau i ostwng prisiau tocynnau i bobl ifanc allu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fel y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym os bydd cyllid ychwanegol ar gael.

# 15. Trafnidiaeth Cymru

**125.** Trafododd y Pwyllgor reoli perfformiad TrC wrth graffu ar drafnidiaeth ym mis Rhagfyr 2023. Disgrifiodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, ddull newydd, gan gynnwys bwrdd perfformiad newydd, a dywedwyd y bydd cynrychiolwyr llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn dwyn TrC i gyfrif.

**126.** Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet welliannau mewn llywodraethiant oherwydd bod cynlluniau corfforaethol yn cael eu cysoni'n well ag amcanion gweinidogion a goruchwylio gwell. Dywedodd Peter McDonald fod dynameg y bwrdd perfformiad yn llawer cryfach yn dilyn y newidiadau a oedd wedi'u cyflwyno. Ychwanegodd:

> *"Welsh Government officials hold TfW to account on a quarterly basis, and we use the TfW business plan as our framework for doing that."*

**127.** Aeth Peter McDonald ymlaen i ddweud ei fod wrthi'n trafod â TrC am yr her o symud o broses gyllidebu flynyddol i broses aml-flwyddyn.

**128.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor hwn wedi argymell yn gyson y dylai cyllideb lawn TrC fod ar gael ar yr un pryd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Pan holwyd ef am hyn, dywedodd Peter McDonald fod hon yn her sylweddol oherwydd natur y broses a'r amserlenni cysylltiedig. Ychwanegodd:

> *"I'm afraid that this may just be the nature of the system, albeit that we will always commit to provide a TfW addendum, just like we have done, once the draft budget is published but before we have this scrutiny session. We are open minded on options, I just fear that this is a structural part of the system.":*

## Ein barn ni

Nodwn y sylwadau am y newidiadau i lywodraethu a rheoli perfformiad mewn perthynas â TrC, megis cyflwyno aelodau anweithredol ac arsylwyr allweddol. Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am sut mae'r bwrdd perfformiad yn gweithredu ac yn benodol sut mae wedi sicrhau gwelliannau mesuradwy a gwerth am arian.

Rydym yn croesawu'r sylwadau mewn perthynas ag annog TrC i newid i gynllunio cyllidebau amlflwydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ar y

Pwyllgor ynghylch y cynnig hwn, gan gynnwys pam nad yw cyllidebu amlflwydd o'r fath hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer materion eraill, fel cynnal a chadw priffyrdd awdurdodau lleol, o ystyried manteision cynllunio amlflwydd o ran gwerth am arian.

Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn annhebygol y bydd cyllideb TrC yn cael ei chyhoeddi ar yr un pryd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rydym yn ystyried bod y dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru eleni yn gyfaddawd derbyniol. Byddem yn gwerthfawrogi ymrwymiad gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yr un dull yn cael ei gymryd yn y blynyddoedd nesaf.

**Argymhelliad 45.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys enghreifftiau penodol, am sut mae'r newidiadau i drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad TrC yn gweithredu ac wedi sicrhau gwelliannau mesuradwy a gwerth am arian.

**Argymhelliad 46.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i barhau i ddarparu atodiad sy'n nodi cyllideb TrC mewn pryd i'w hystyried yng ngwaith y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb ddrafft.